

Bwletin Drych Iechyd



Cwestiynau Cyffredin am Homeopat heg

Dyma rai o'r cwestiynau rydw i wedi eu trafod ynglŷn â fy ngwaith dros y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf.

'Sgen ti rywbeth at A, B, C, Ch, D? 'Dwi'n cynnig triniaeth i bob math o bobl, waeth beth ydi eu diagnosis nhw. Yr unigolyn sy'n bwysig, nid enw'r salwch.

Wyt ti'n cynnig triniaeth homeopathig i blant? Ydw. Mae trin plant a'u teuluoedd yn ganolog i fy mhreactis, yn cynnwys babis newydd-anedig a phlant hŷn.

Wyt ti ar facebook? Nac ydw – o ddewis! Ond mae gen i wefan y medrwyd chi bori drwyddi.

Ai ti sy'n gwneud y remydis dy hun o'r planhigion yn yr ardd? Nage. Mae pob meddyginiaeth homeopathig yn dod o fferyllfa arbenigol fel Helios a dim ond rhai ohonyn nhw sy'n deillio o blanhigion.

Wyt ti'n trin anifeiliaid fferm? Nac ydw ond rydw i'n 'nabod sawl milfeddyg homeopathig y gallaf roi eu rhif cyswllt. Gallaf hefyd argymhell hyfforddiant fel HAWL – Homeopathy at Wellie Level – cwrs rhagorol i ffermwyr a thyddynwyr o bob oed!

'Dwi'n gweld 'mod i'n cael Nat mur 1M fel presgripsiwn. Ydi hynny'n golygu fod fy mod i'n bwyta gormod o halen? Ddim o reidrwydd, er ei bod yn bosib y byddi di wedi crybwyll hoffter o halen fel rhan o dy ddarlun cyflawn. Os am ddeunydd darllen pellach, mae gen i erthygl am Nat mur a manteision halen da yn yr adran blog.



Digitalis
(Bysedd y cŵn)



Apis mel
(Gwenynen fêl)



Mercurius
(Arian byw)

'Rargol, 'dio'n saff, d'wed? Ydi! Ar yr olwg gyntaf gall enwau rhai o'r remediau godi ofn am eu bod yn ein hatgoffa o wenwyn. Ond oherwydd y gall **tebyg wella'i debyg**, mae pethau fel Bysedd y cŵn yn ddefnyddiol mewn homeopat heg, mewn meddygaeth prif lif ac mewn ffisig llysiuol. Mae'r fersiwn homeopathig o bob sylwedd wedi cael ei wanhau fel nad oes gwenwyn ar ôl, ac yn cael ei ysgwyd er mwyn deffro egni'r sylwedd gwreiddiol.

Ddylw'n i stopio cymryd tabledi'r doctor? Dydw i BYTH yn ymyrryd gyda phresgripsiwn sydd wedi cael ei ddarparu gan feddyg. Os ydi claf yn dymuno lleihau ei ddibyniaeth ar unrhyw dabledi confensiynol, neu yn dioddef oherwydd eu sgîl-ffeithiau, rydw i'n annog trafod hyn gyda'r meddyg teulu ond defnyddio homeopat heg i gefnogi'r ffordd ymlaen, beth bynnag fydd hynny.

Ga i gysylltu rhwng apwyntiadau? Â chroeso. Rho ganiad i mi unrhyw bryd rhwng 10-6 o ddydd Llun-Gwener os oes gen ti gwestiwn am dy remydi, neu os oes salwch aciwt yn codi ei ben (fel feirws / dannodd / torri braich.)

Elin, ddoi di i tŷ ni i chwarae darts?

Ok dydi hwn ddim yn gwestiwn cyffredin, dim ond yr un diwedd-araf! Hyd yn oed wrth drin teuluoedd drwy gyswllt fideo, gall *rapport* ddatblygu efo'r plant a'r rhieni. Ond gêm o ddarts? Bydd rhaid ymarfer!



MEDDWL CYN SIARAD ♥ DARLLEN CYN MEDDWL*

The Practical Handbook of Homoeopathy: Colin Griffith (Watkins Publishing, 2012);

Oooh, I Love Toxic Substances! (When They're So Diluted They Become Medicines):

Joette Calabrese (www.joettecalabrese.com, 2020);


Rhymes for Remedies: Jackie Griffin Synnott (Self-published, 2014);

Get Well Soon: Misha Norland & School of Health (Yondercott Press, 2011).

*Fran Lebowitz - Social Studies

Asgwrn Cefn y Dull Homeopathig

Pedair egwyddor syml: dysga am y rhain ac mi ddaw defnyddio bocs bach o feddyginiaethau homeopathig yn hawdd. Rhaid i'r *pedair* rheol fod ar waith ar yr un pryd. Mae hyn yn wir i ti mewn sefyllfa aciwt yn y cartref, a gen innau wrth wneud presgripsiwn proffesiynol tymor hir.



Tebyg at ei Debyg – Dylai natur y remydi a natur y person fod yn debyg iawn i'w gilydd. Felly rhaid sylwi'n fanwl ar y claf a darllen y disgrifiad o'r remydi yn ofalus cyn dewis remydi.

Trin yr Unigolyn – Y person unigol sy'n bwysig yn hytrach nag enw'r salwch. Rhaid i ni sylwi ar y pethau sy'n gwneud y claf hwn yn wahanol i bob claf arall.


Darlun Crwn, Cyfan – Fedrwn ni ddim fforddio edrych ar un symptom yn unig: mae pob un cliw yn bwysig wrth ddewis remydi. Sylwa ar bopeth; o dymheredd y claf i'w syched, o lefel ei boen i'w gyflwr emosiynol.

Gorau po Leiaf - 30c ydi'r cryfder mwyaf cyffredin mewn bocsys cymorth cartref, a rhaid sylwi ar raddfa'r boen cyn penderfynu pa mor aml i roi'r remydi. Wrth i'r symptomau lacio bydd angen tynnu'n ôl i'w roi yn llai aml, ac yna stopio pan yn well.

Adnoddau i Ddechreuwyr



Homeopathy Taster Course – Ar gael o www.homeopathyschool.com gydag opsiwn o arweiniad unigol gan diwtor os dymunir.



Rhymes for Remedies gan Jackie Griffin Synnott (2014). Copïau caled a fersiwn Kindle ar gael.



Bocs Bach 36 Remydi – Ar werth gan Fferyllfa Helios: ffonia i archebu ar +44 (0)1892 537254.

Mae pob un o erthyglau a blogiau Drych Iechyd wedi eu hysgrifennu er budd y rheiny sy'n dymuno dysgu am wir ystyr iechyd, yn awyddus i feddwl yn eang ac yn barod i gymryd cyfrifoldeb am eu dewisiadau nhw eu hunain. Natur addysgiadol sydd i bob gwybodaeth a rennir ac ni ddylai ddisodli cyngor meddygol. Ni ellir addo cywirdeb na chyflawnder y cynnwys, na chwaith ei berthnasedd i unrhyw gyflwr neu amgylchiad personol. Os am roi unrhyw syniad neu egwyddor a ddisgrifir yma ar waith, chi sy'n cymryd cyfrifoldeb llawn am hynny. Mynnwch gyngor gan ymarferydd iechyd pan yn sâl.

AUDE SAPERE – MENTRA WYBOD – DARE TO GET IT

Elin Alaw – Homeopath Proffesiynol ac Ymarferydd G.A.P.S.
elinalawhomeopath@yahoo.co.uk / 07989 491 417 / www.elinalaw.com